CANOLFAN CYMRAEG I OEDOLION GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES WELSH FOR ADULTS CENTRE

PANEL DARPARWYR GOGLEDD CYMRU

Cynhaliwyd cyfarfod o Banel y Darparwyr ddydd Mercher, Mai 14 am 1.00yp yng Nghanolfan Dyfodol@Treffynnon.

Presennol: Elwyn Hughes (Cadeirydd, Prifysgol Bangor); Llinos Price (Coleg Harlech WEA); Rhian McCarthy (Coleg Llandrillo Cymru); Ifan Prys (Nant Gwrtheyrn); Catrin Keller (Coleg Llandrillo Cymru); Haydn Hughes (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Howard Edwards (Popeth Cymraeg); Pam Evans-Hughes (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Jina Gwyrfai (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Frances Jones (Popeth Cymraeg); David O. Jones (NEWI); Myfi Brier (Coleg Llysfasi); Dona Padan (Coleg Llysfasi); Ifor Gruffydd (Canolfan Cymraeg i Oedolion)

Ymddiheuriadau: Jeni Harris (Coleg Iâl); Ann Rhian Hughes (Coleg Menai); Caroline Williams (Coleg Meirion Dwyfor); Dafydd Rhys (Coleg Harlech WEA)

Gweithredu

1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

2. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD 12 MAWRTH 2008

Cadarnhawyd fod cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd 12 Mawrth 2008 yn gywir.

3. MATERION YN CODI

- Ni ddaethpwyd i gytundeb yng nghyfarfod diwethaf y Grŵp Strategol ynglŷn a ffioedd gostyngol. Bydd pob darparwr yn parhau i ddilyn polisïau mewnol eu sefydliadau.
- Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan y darparwyr ynglŷn â fformat gwefan y Ganolfan. Bydd y Ganolfan yn dal i drafod hyn efo cwmni ATOM PR.
- Cyfeiriwyd at y llwybrau achredu newydd gan CBAC. Bydd rhai darparu yn treialu'r llwybr y flwyddyn nesaf ond mae'r mwyafrif yn bwriadu aros efo RhCA.
- Mae ymgyrch i ddenu tiwtoriaid newydd yn cael ei hysbysebu yn y wasg.

- Cyhoeddodd IG bydd Hywel Jones, Bwrdd yr Iaith yn cael ei wahodd i roi cyflwyniad yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Strategol.

4. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR

Cafwyd adroddiad gan IG yn egluro:

Dangosyddion Perfformiad

Mae'r Ganolfan wedi sefydlu dangosyddion er mwyn cynorthwyo gyda gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol. Bydd y Ganolfan yn monitro agweddau megis ymrestriadau, cyfraddau cwblhau, cyfraddau cyflawniad, cyfraddau dilyniant, ymrestriadau dwys a darnynol, gweithle, y teulu, dysgu anffurfiol a hyfforddiant tiwtoriaid yn erbyn y dangosyddion hyn.

Targedau

Bydd targedau perfformiad y Ganolfan wedi'u nodi'n fanwl yng nghynllun Strategol a Gweithredol y Ganolfan a fydd yn cael ei gyflwyno i APADGOS ddechrau Mehefin 2008.

Meincnodi

Bydd y Ganolfan yn meincnodi yn erbyn Canolfannau Cymraeg i Oedolion yn genedlaethol, ac yn meincnodi yn erbyn meysydd eraill trwy gydweithio gyda rhwydweithiau megis Rhwydwaith Fflint a'r Gamfa.

5. ADRODDIAD Y RHEOLWR DATA

Nid oedd gan y Rheolwr Data ddim i adrodd arno yn y cyfarfod.

6. ADRODDIAD Y SWYDDOGION DATBLYGU

Mae'r Ganolfan bellach wedi derbyn rhaglenni drafft gan bob darparwr ar draws y rhanbarth, bydd copi electroneg yn cael ei anfon at bob darparwr ar gyfer ei wirio. Pwysleisiodd y darparwyr ei fod yn holl bwysig cael dyddiad dechrau'r cwrs yn y pamffled. Gofynnwyd y cwestiwn lle mae cyrsiau bloc Nant Gwrtheyrn, eglurodd JG byddai'r cyrsiau bloc yn mynd yng nghanol y llyfryn. Dylid cynnwys prisiau cyrsiau a pris gostyngol ynghyd a manylion cyswllt pob darparwr yn y llyfryn.

Eglurodd PEH strwythur cyrsiau Cymraeg i'r Teulu a pwysleisiodd bod nifer yn holi am gyrsiau parhad yn yr ardaloedd lle mae'r cyrsiau wedi'u cynnal.

Mae'r Ganolfan wedi paratoi strategaeth ar gyfer darparu cyrsiau Cymraeg yn y Gweithle ond teimlad y darparwyr oedd bod angen canllawiau mwy eglur yn ynglyn a'r modd y dylid ymateb i geisiadau am gyrsiau.

Bydd wythnos Addysg i Oedolion, 19-26 Mai 2008. Eglurodd JG bydd yn amod i bob darparwr gynnal darpariaeth allgyrsiol y flwyddyn nesaf 2008/09, bydd rhaid i bob darparwr baratoi rhaglen o weithgareddau.

Mae pob darparwr wedi derbyn arian prosiect yn ddiweddar, bydd y Swyddogion Datblygu yn ymweld a phob darparwr i weld sut mae'r datblygiadau yn mynd yn eu blaen.

7. CYHOEDDUSRWYDD A MARCHNATA

Mae cwmni ATOM PR yn bwriadu datblygu cyfres o straeon yn y wasg a gwahoddir y darparwyr i anfon unrhyw sylwadau at y Ganolfan.
Bydd ymgyrchoedd hysbysebu cyrsiau yn cael eu trafod yn llawnach yn y Grŵp Strategol nesaf.

8. HYFFORDDIANT

Adroddodd HH bod cynhadledd lwyddiannus wedi ei chynnal yn Llangollen gyda 70 o diwtoriaid wedi mynychu. Cafwyd adborth arbennig o gadarnhaol i'r sesiynau i diwtoriaid dibrofiad. Cynhaliwyd penwythnos hyfforddi i diwtoriaid dibrofiad ar y cyd efo Canolfan y Canolbarth ym mis Mawrth, ac unwaith eto roedd yr adborth yn ffafriol iawn i'r sesiynau.

Bydd ymgyrch ar lefel genedlaethol yn cael ei threfnu i ddenu tiwtoriaid newydd i'r maes a bydd cwmni ATOM PR yn cydlynu ymgyrch ranbarthol.

9. MATERION I SYLW'R PANEL ADNODDAU CENEDLAETHOL

Mynegodd IT bod Popeth Cymraeg wedi creu CD rai blynyddoedd ac yn ymholi os oes modd creu CD dilyniant ac oes modd cael cyllid.

Awgrymwyd casgliad o ddeunyddiau gweledol a chlywedol i gynyddu ymwybyddiaeth dysgwyr o wahanol agweddau ar y diwylliant Cymraeg fel prosiect arall posib.

Atgoffwyd aelodau i anfon braslun o unrhyw gais at IG.

10. DIGWYDDIADAU

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau i'w hysbysebu

11. U.F.A.

Nid oedd unrhyw beth arall i'w drafod.

12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Pnawn Mercher, 15fed Hydref 2008 am 1.30yp, Ystafell Rhos, Coleg Llandrillo Cymru, Llandrillo yn Rhos.